

Swydd

galeri
c



Tîm Creadigol: Prosiectau Cymunedol

Pecyn swydd Medi 2022

Galeri Caernarfon

Swydd Tîm Creadigol: Prosiectau Cymunedol

Ydych chi'n angerddol am y celfyddydau ac yn awyddus i gael effaith bositif ar fywydau bobl leol?

Os felly, rydym yn chwilio am berson deinamig, egnïol a chreadigol i ddatblygu prosiectau cymunedol y cwmni.

Os hoffech drafod y swydd ymhellach, cysylltwch â Chyfarwyddwr Creadigol Galeri, Naomi Saunders ar 01286 685241 neu e-bostiwch naomi.saunders@galericaernarfon.com

Fel menter gymdeithasol, mae ein perthynas gyda'r gymuned yn hollbwysig i ni yn Galeri oherwydd dyma sydd yn llywio ein gweithgareddau byr a hirdymor. Mae'n hanfodol bod deialog a chydberthynas gyson rhwng y cwmni a'r gymuned, gan mai ein nod yw i ddatblygu unigolion hapus, hyderus a ffyniannus ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn awyddus i glywed lleisiau sydd heb eu clywed, ac i drechu unrhyw rwystr sydd yn atal y gymuned rhag cyfranogi gyda'r celfyddydau a theimlo perchnogaeth dros Galeri. Oherwydd hyn, bydd y rôl yma yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol er mwyn creu a gwireddu amryw o brosiectau cymunedol, gan ddatblygu perthynas ddyfn a chadarn.

Galeri yn y Gymuned



Y Swydd

Mae Galeri Caernarfon yn chwilio am berson creadigol, egniol, trefnus, brwdfrydig ac agos atoch i gydlynu gweithgareddau ymgysylltu Galeri.

Bydd prif gyfrifoldebau'r deilydd yn cynnwys:

- Sefydlu a datblygu perthnasau cadarnhaol gyda grwpiau ac unigolion yn y gymuned yma yng Nghaernarfon ac yng ngogledd-orllewin Cymru
- Datblygu strategaeth ymgysylltu sydd yn cydfynd ag amcanion a blaenoriaethau Galeri Caernarfon a Chyngor Celfyddydau Cymru
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol i sefydlu ac arwain ar brosiect celfyddydol o safon uchel sydd yn benodol ar gyfer bobl ifanc yr ardal
- Cydweithio gyda mudiadau, elusennau, y sector addysg a chwmnïau creadigol eraill er mwyn cynnig ystod eang o arlwy sydd yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithasol yr ardal
- Datblygu dealltwriaeth y cwmni o'r gymuned a helpu'r gymuned i ddeall gwir bwrpas Galeri fel cwmni
- Arwain sesiynau ymgysylltu creadigol gyda grwpiau ac unigolion sydd yn annog ystod eang o bobl i gymryd rhan

- Creu prosiectau arloesol, amserol sydd yn ateb gofynion ac anghenion y gymuned ar y pryd
- Arwain ymgyrchoedd a phrosiectau iechyd, lles a chydaddoldeb y cwmni
- Datblygu a gweithredu ffyrdd newydd o weithio, ymgysylltu a chydweithio gyda'r gymuned gyfan
- Creu partneriaethau newydd gyda grwpiau amrywiol (yn lleol, genedlaethol ac yn rhyngwladol)
- Creu, cynnal a datblygu perthnasau gyda chymunedau nad ydym yn eu cyrraedd ar hyn o bryd



- Cydweithio gyda gweddill y Tîm Creadigol i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o unrhyw gyfle i fod yn gynhwysol
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Creadigol a'r Cyfarwyddwr Cyllid i godi arian ar gyfer prosiectau amrywiol lle bo'r angen
- Rheoli prosiectau amrywiol, casglu adborth a monitro eu heffaith ar gyfranogwyr ac ar y cwmni
- Cydlynu tiwtoriaid/gweithwyr llawrydd i arwain sesiynau

Chi

Rydym yn chwilio am arweinydd prosiectau cymunedol sydd â'r gwir ysfa i wneud gwahaniaeth.

Mae angen i chi fod yn ddeinamig, yn greadigol, yn angerddol am y celfyddydau ac yn uchelgeisiol.

Rydym yn chwilio am berson sydd yn meddu'r sgiliau canlynol:

- Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i weithio dan bwysau
- Sgiliau cyfathrebu clir ac o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig), gyda'r gallu i gyfathrebu ac ymwneud â phobl o bob rhan o'n cymdeithas yn gwrtais ac effeithiol
- Sgiliau gweinyddol a chyfrifiadurol o'r safon uchaf
- Person sy'n angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri
- Profiad o reoli prosiectau celfyddydol a/neu gymunedol
- Y gallu i ymchwilio'r farchnad a dadansoddi adborth
- Y gallu i weithio yn rhan o dîm, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da
- Ymroddedig, dibynadwy a hyblyg o ran oriau gwaith
- Dychymyg a'r hyder i gyfrannu syniadau
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau
- Mae profiad o wneud ceisiadau grant yn fanteisiol

Telerau ac amodau'r swydd

Teitl: Tîm Creadigol: Prosiectau Cymunedol

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Creadigol

Cyflog: £21,000 - £25,000

Cyfnod: Parhaol (yn ddibynnol ar gyfnod prawf o 6 mis)

Oriau gwaith: 37 awr yr wythnos. Swydd llawn amser yw hwn. Gall yr oriau gwaith amrywio, ac mae gofyn i'r deilydd fedru gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fo'r angen.

Lleoliad: Mae'r swydd wedi ei leoli yn bennaf yn Galeri, Caernarfon, ond bydd disgwyl i'r unigolyn deithio o gwmpas yr ardal yn ddibynnol ar ofynion y swydd.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol a chlr yn y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd hon.

Fel cyflogwr rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o gymdeithas er mwyn adlewyrchu'r ddemograffeg leol ac ehangach yn fanwl gywir, a thrwy hynny ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Am gopi print bras o'r pecyn yma, cysylltwch efo'r Cyfarwyddwr Creadigol, Naomi Saunders ar 01286 685241 neu naomi.saunders@galericaernarfon.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12:00 (amser cinio)
Dydd Llun 10fed o Hydref, 2022**

Dyddiad cychwyn: Cyn gynted a phosib